



**Swydd:** Dirprwy Reolwr Arlwyo a Gofal Cwsmer  
**Yn atebol i'r** Rheolwr Arlwyo a Gofal Cwsmer

---

**Dyddiad cau:** 15.00 Ebrill 3 2018  
\*Ceisiadau ar ffurf ffurflen Gais yn ogystal a CV

**Cyfweliadau:** Dyddiad i'w gadarnhau

**Cyflog:** £17,920 - £18,600  
**Oriau:** 40 awr yr wythnos  
[ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau anghymdeithasol, penwythnosau a Gwyl Banc]

**I ddechrau:** Cyn gynted ag sy'n bosibl

**Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:**  
**Rhian Evans-** 01286 685250 neu  
**Iona Davies-** 01286 685 218 neu [post@galericaernarfon.com](mailto:post@galericaernarfon.com)

---

### **Prif bwrpas y Swydd:**

#### **I ddirprwyo yn absenoldeb y Rheolwr Arlwyo a Gofal Cwsmer fel a ganlyn:**

- I reoli'r Tim Gofal Cwsmer, Staff y Caffi/Bar/Blaen Ty Galeri a sicrhau bod holl ddyletswyddau'r staff Arlwyo a Blaen Tŷ yn cael eu cwblhau mewn modd effeithiol a phroffesiynol
- I fod yn gyfrifol am reoli adeilad a staff Galeri ar adegau penodol yn ol y rota ac i drosglwyddo gwasanaeth o'r safon uchaf sydd yn gyson ac effeithiol i'n cwsmeriaid
- Gweithio i ddirprwyo Tim Rheoli Galeri i drosglwyddo amcanion a nodweddion artistig, masnachol a chynhwysiad cymdeithasol y Cwmni
- Bod yn Llysgennad ar gyfer Galeri a bod yn Arweinydd trwy esiampl

Yn y swydd hon bydd angen dangos sgiliau rheoli tim, sgiliau cyfathrebu rhagorol, sgiliau rhwydweithio a threfnu a'r gallu i reoli a chyfarwyddo amrywiaeth eang o ddigwyddiadau

Byddwch â gwir ddiddordeb yn y maes arlwyo ac mewn gwasanaethu cwsmeriaid ac yn gallu gweld a chanfod cyfleoedd i ddarparu gwasanaeth rhagorol ar bob achlysur.

Byddwch yn ymwybodol o'r angen i wneud y gorau o gyfleoedd i gynhyrchu busnes ychwanegol i'r Cwmni.

Bydd angen hyblygrwydd i weithio gyda'r nosau, penwythnosau, gwyliau banc oherwydd natur y busnes.

### **Dyletswyddau:**

Rhoi gwasanaeth proffesiynol, cwrtais a chyfeillgar i gwsmeriaid a staff Galeri ar bob achlysur a hyrwyddo amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer

I fod yn hollol ymwybodol a rhagweithiol i farchnata cynhyrchiadau, gwasanaethau a chyfleusterau'r adeilad gan edrych i greu cyfleoedd gwerthu lle bynnag sy'n bosibl

I fod yn flaenweithgar ar ran Galeri mewn gofal cwsmer, iechyd a diogelwch, hylendid a sicrhau bod gofynnion ein cwsmeriaid a thenantiaid yn cael eu delio â nhw mewn dull cwrtais, effeithlon a chynorthwyol

Cynorthwyo'r Rheolwr gyda pharatoi Rotas gwaith yn brydlon fel y gellir sicrhau gwasanaeth o'r safon orau ac yn unol â gofynion cyllidebol

Rheolaeth cyffredinol o'r Tim Blaen Ty yn absenoleb y Rheolwr, arwain drwy esiampl i sicrhau bod y tim yn cael ei ysgogi

Datrys unrhyw broblemau neu delio efo unrhyw gwynion yn sydyn, effeithiol a chwrtais

Sicrhau bod y tim i gyd yn cydymffurfio gyda gofynion gwisg unffurf ar bob achlysur ac yn gwisgo eu bathodyn enw

Cyd weithio â'r Tim Rheoli yn absenoldeb y Rheolwr i wneud yn siwr bod safon gofal cwsmer yn gyson a phroffesiynol

Cyd weithio â'r Rheolwr i ddatblygu pob agwedd o'r adran Arlwygo a Gofal Cwsmer

Bod yn ymwybodol o anghenion archebu a rheoli lefelau stoc

Cyd-weithio hefo'r Gofalwr ar ddyletswydd i sicrhau eu bod yn gweithredu'r dyletswyddau yn unol â gofynnion y shift

Sicrhau bod cyfrif am holl arian y Caffi a'r Bar a bod yr arian yn cael ei fancio yn unol â rheoliadau ariannol y Cwmni- sicrhau bod y Tim Gofal Cwsmer yn cael eu hyfforddi ar sut i falansio'r tills a rheoli'r fflôt ar gychwyn neu diwedd y dydd

Sicrhau rheoli amgylchedd glân a diogel i gwsmeriaid a staff y Bar a'r Caffi pob amser trwy lynu wrth gyfreithiau trwyddedu, polisiau Iechyd a Diogelwch, Glendid Bwyd a Rheoliadau Deddfwriaeth

Uwch werthu cyfleusterau ychwanegol ynghlwm âc ymweliad cwsmeriaid

Cydymffurfio gyda safonnau, telerau ac amodau a osodir yn Llawlyfr Staff y Cwmni

Ymgymryd âg unrhwy ddyletswyddau rhesymol eraill fel bo'r angen ag sydd yn addas.

---

## **MANYLDEB PERSON/SGILIAU / ANGHENION HANFODOL:**

Person aeddfed, egniol, trefnus ag ymroddgar sydd a dymuniad cryf i gynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid Galeri

Profiad o weithio yn y diwydiant lletygarwch

Sgiliau rhwydweithio a threfnu ardderchog

Sgiliau rheoli staff a chyfarwyddo amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, gwneud penderfyniadau, hyfforddi ac ysgogi tim

Sgiliau cyfathrebu uchel a'r gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg

Gallu gweithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm

Dangos gallu i groesawu newid ac i adeiladu gwaith tim effeithiol

**Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol a chilir yn y Gymraeg yn hanfodol i'r swydd hon**



[galericaernarfon.com](http://galericaernarfon.com)

Twitter: @\_Galeri\_

Facebook: /GaleriCaernarfon